Cynhaliwyd Cyfarfod or Cyngor ar 16 o Fawrth 2022 am 7.30 or gloch yn y festri Capel. Presenol oedd Wyn Jones, Mr Eryl Evans fel (cadeirydd), Helen Jones, Generys Roberts a Cynghorydd Sir Peter Lewis.

Ymddiheuriadau gan Llyr Jones.

Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe u harwyddwyd fel rhai cywir.

Datgan diddordeb - neb.

**Gohebiaeth**

**Ysbyty Stoke** - diolch am ein cyfraniad.

**Unllais Cymru –** Tal aelodaeth £34.00.

**Ty Gobaith –** diolch am ein cyfraniad.

**Eisteddfod Llangollen** – gofyn am gyfraniad pasiwyd ei adael.

**Ysgol Cerrig y Drudion** – diolch am y cyfraniad.

**ARIANOL**

**HSBC –** Yn y banc

**Costau a cyflog y clerc** – pasiwyd i dalu y clerc.

**UNRHYW FATER ARALL**

**Ffurfleni i sefyll fel cynghorydd,** ffurflen iw lenwi ai dychwelyd i Bodlondeb Conwy cyn 5ed o Ebrill. Pawb ond Wyn Jones am ail sefyll paswiyd gofyn i Arwyn Ellis,Ty Isa oes oes ganddo ddiddordeb.

**Sgip** pasiwyd i gael sgip yn mis mai ar y dydd sadwrn ar rota eto eleni.

**Y diweddar Eifl Roberts**- pasiwyd i yrru cerdyn i gydymdeimlo ar teulu ac roedd y Clerc yn barod i blannu blodau yn y tybiau yn y pentre. Bydd goleuadau y goeden dolig y pentref nawr yn cael ei cadw gan Gen.

**Ffens Cae Peldroed** – pasiwyd i gysylltu efo Hywel i dechrau y gwaith ffensio.

**Awdit Mewnol** – pasiwyd gofyn i Teleri ymgymeryd ar gwaith.

**Tori Gwair y mynwentydd** – pasiwyd gofyn i Alan am bris i wneud y gwaith eto eleni.

**Cyngor Sir Conwy** - cysylltu eto i ddweud am y tyllau wrth ochr y ddau grid gwartheg wrth Bryn Deiol a hefyd nid yw y gwaith o godi clawdd wrth Nant y Geuryd heb ei wneud ychwaith ar ol son peth amser yn ol.

**Cyngor Sir Conwy** – Treth y toiledau yn Llanfihangel dim.

**Cynllun Gwariant 2022/23** – wedi ei drafod ac ei harwyddo gan y Cadeirydd.

**Disgrifiad Swydd** – Wedi ei gymeradwyo ai hawyddo gan y Cadeirydd.

**Cytundeb Clerc Cyngor Cymuned** – Wedi ei cymeradwyo ai harwyddo gan y Cadeirydd.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.30

Dyddiad nesaf Mai 2022.